

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWDYD YN Y NEUADD 3 MEHEFIN 2021 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Elfyn Williams (Cadeirydd), Mair Stephens, Richard John, Viv Davies, Meinir James, Eifion Jones, Janet Knott, Rheinallt Jones ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Philip Davies, Shan Rees a Hugh Anderson.

Nodwyd nad oedd Hugh Anderson wedi gallu mynychu cyfarfodydd a chan fod rhain bellach yn cael eu cynnal eto yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog gofynnir iddo wneud pob ymdrech i fynychu'r cyfarfod nesaf. Bydd y Clerc yn cadarnhau, os nad oedd hyn yn bosibl, efallai y byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan swydd wag.

Nododd y Cadeirydd farwolaethau diweddar dau gyn Cynghorydd, Trevor Lloyd ac OA Morgan o Gwmffrwd. Safodd yr Aelod am eiliad o dawelwch er cof amdanynt.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 13eg a'r 20fed o Fai 2021 a'r Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2021.

4. Materion yn codi

1. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y cynnig hwn ar gyfer ymgynghoriad. Nodwyd gyda siom.

2. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin - Parhawyd i aros am ddyddiad ar gyfer gwaith yn Ysgol Bro Myrddin. Nodwyd.

3. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth – Roedd y Clerc wedi adrodd y digwyddiad gyda'r ci i'r heddlu a'r Cyngor Sir. Disgwylid diweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

4. COVID-19 – Trafododd aelodau'r achosion parhaus o COVID-19 a'r effaith ar y Gymuned.

5. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

6. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed – Nid oedd y Cyngor Sir wedi gallu symud y mater yn ei flaen hyd yma. Nodwyd.

7. Uchafswm Cyflymder Cwmale – Roedd y Cyngor yn aros am gyfarfod o'r Gweithgor Cyflymder er mwyn ystyried ymestyn yr ardal 30mya.

8. Presenoldeb Pennaeth Trafnidiaeth y Cyngor Sir yng nghyfarfod y Cyngor - Cadarnhaodd y Clerc byddai Pennaeth Trafnidiaeth y Cyngor Sir yn mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Nododd y Cynghorydd Mair Stephens ei bod wedi codi'r diffyg ymatebion ar faterion o bryder gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau. Nodwyd.

9. Cynnig i adleoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog – Disgwylid am ddatblygiadau pellach gyda'r cynnig. Roedd perchennog y tir wedi bod mewn cysylltiad â'r Clerc i godi pryder ynghylch diffyg cynnydd gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

- 10. Llygaid Cathod a gwaith wyneb y ffordd - A484 Llandyfaelog i Gaerfyrddin -** Disgwylid dyddiad ar gyfer gwaith ar ail-wynebu'r briffordd mewn manau rhwng Caerfyrddin a Llandyfaelog. Nodwyd bod yr ardal a ddifrodwyd ger Cywion Bach wedi'i hatgyweirio. Nodwyd.
- 11. Diwrnod y GIG, Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Rheng Flaen –** Nododd y Clerc nad oedd Un Llais Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a drefnwyd i nodi'r diwrnod hwn. Dosbarthodd y Clerc hysbysiad i'w gymeradwyo i'w roi ar wefan a hysbysfwrdd y Cyngor i ddiolch i gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Rheng Flaen yn barod am y digwyddiad ar 5ed Gorffennaf. Cytunwyd yr hysbysiad ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Bydd y Clerc yn archwilio'r posibilrwydd o gael coeden goffa ar gyfer Tir Gof.
- 12. Gwter / draen ar ben llethr Llandyfaelog –** Bydd y mater yn cael ei fonitro.
- 13. Gorfodi Cynllunio, eiddo mewn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Nodwyd bod tîm gorfodi'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal a dywedwyd wrthynt nad oedd yr unigolion yn byw yn y garafán. Byddai ymweliad pellach yn cael ei gynnal gydag adroddiad i'r Cyngor. Nodwyd.
- 14. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cyffordd Ffordd Bolahaul yr A484 yng Nghwmffrwd –** Disgwylwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 15. Pryder am garafán wedi'i lleoli ger Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am y cais cynllunio. Nodwyd.
- 16. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan –** Disgwylwyd am ragor o wybodaeth am y mater.
- 17. Cynnig i ddarparu llwybr troed rhwng Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a'r Ficerdy –** Roedd y Clerc yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gyllid ar gyfer y prosiect hwn.
- 18. Arwydd wedi pylu yn Heol y Lan -** Nodwyd bod yr arwydd wedi'i ddisodli. Derbyniwyd nodyn o ddiolch gan Wyn Davies o Hazelmere, Idole. Bydd y Clerc yn trosglwyddo diolch y Cyngor i Swyddogion perthnasol y Cyngor Sir.
- 19. Casglu sbwriel posibl ar ffyrdd yn y Gymuned gan Tim Ad-dalu cymunedol –** Roedd y Clerc yn aros am ymateb ar y mater wrth y Tim Ad-dalu cymunedol. Nodwyd.
- 20. Capel Rama - Ail-baentio Lloches Bws -** Roedd y Cyngor Sir wedi nodi, er nad oedd ganddynt unrhyw gyllideb ar gyfer gwneud gwaith ar y llochesi, eu bod wedi gwneud ymholiadau gyda'r cwmni mewn perthynas a llochesi a oedd mewn amodau arbennig o wael, fel yr un yng Nghapel Rama. Nodwyd.
- 21. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cloigyn –** Roedd y Cyngor yn aros am ymateb ar y mater.
- 22. Amnest Gwastraff Posibl - Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Nodwyd.
- 23. Llwybr troed 29/12 - Fferm Cilmarch -** Derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir nad oedd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn wreiddiol wedi bod yn bosibl oherwydd pandemig COVID, ond roeddent wedi bod mewn cysylltiad â thrigolion Cilmarch ac yn edrych ar waith posibl i'w wneud i leddfu'r problemau gyda cerddwyr yn mynd ar goll ar y llwybr, y bwriad oedd ymgymryd â'r rhain ar ôl y gwyliau hanner tymor. Nodwyd.
- 24. Cais Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan Ysgol Gyfun Bro Myrddin -** Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn ceisio gytuno dyddiadau sy'n gyfleus i bawb ar gyfer cyfarfod i drafod y prosiect. Nodwyd.
- 25. Neuadd Eglwys Santes Ann -** Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trafod cyllid posibl gyda'r Swyddfa Gymunedol a byddai'n darparu gwybodaeth i awdurdodau Neuadd yr Eglwys. Nodwyd.

26. Cystadleuaeth Bwgan Brain Cymunedol - Cadarnhaodd y Clerc fod hysbysebu'r gystadleuaeth wedi cychwyn. Nodwyd.

27. Gwelededd ar gyffordd Llandyfaelog - Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi adrodd y mater i'r Cyngor Sir. Nodwyd.

28. Pryderon diogelwch ffyrdd yn Sgwâr Bryncochbach - Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi adrodd y mater i'r Cyngor Sir. Nodwyd.

29. Llwybr Treftadaeth Peter Williams - Hysbysodd y Cadeirydd aelodau o'r ymweliad safle a gynhaliwyd gyda'r Grŵp Ymgyrchu ar 27ain Mai i edrych ar leoliadau posibl ar gyfer post cod QR yn cyfeirio ymwelwyr at hanes ar Peter Williams. Trafodwyd y posibilrwydd o osod yr arwydd ger y pwmp a phanel gwybodaeth hanesyddol yn Llandyfaelog. Disgwylir gwybodaeth bellach am y mater.

30. PL/01633 - Codi arfaethedig 5 bodiau gwersylla a gwaith cysylltiedig, Tir yn Fferm Capel, Bancycapel, Caerfyrddin, SA32 8EB. Nododd y Clerc fod dau gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl yn y lleoliad wedi'u gwrthod oherwydd pryderon priffyrdd yn ystod y 1990'au. Yn dilyn ystyriaeth bellach, cytunwyd na fyddai unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu codi mewn perthynas â'r cais, ond bydd y Clerc yn pwysleisio barn y Cyngor unwaith eto bod angen gwelliannau er mwyn ddiogelwch ar y ffyrdd ym Mancycapel gynnwys terfyn cyflymder is.

5. Gohebiaeth

1. Gofal Cymdeithasol Cymru - Dysgu gwersi o'r ymateb cymunedol i COVID19 yng Nghymru - Arolwg. Nodwyd.

2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Adeiladu dyfodol iachach ar ôl COVID19 - Arolwg. Nodwyd.

3. Hywel George – Cais am luniau o fedd y Parch. Peter Williams. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â grŵp ymgyrchu'r Llwybr Treftadaeth.

4. CETMA – Cylchlythyr Mai. Nodwyd.

5. Cyngor Sir Caerfyrddin - Proffil Bywyd gwyllt yn eich Ward. Roedd y Clerc wedi gosod y manylion hyn ar wefan y Cyngor a'i gylchredeg fel rhan o'r Cylchlythyr Cymunedol. Nodwyd.

6. Banc Barclays – Datganiadau. Nodwyd.

7. Cyngor Sir Caerfyrddin - Gwybodaeth am y cynllun lleoedd lleol am natur a'r posibilrwydd o gael pecyn cychwynnol natur bellach fel yr un a osodwyd ar gae Idole yn 2020. Cytunwyd i ofyn am becyn cychwynnol ar gyfer Tir Gof.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn diweddariad pellach mewn perthynas â'r hawliad am gostau'r difrod ffens.

7. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc gyfanswm o 28 awr a weithiwyd yn ystod mis Mai ynghyd â £225.00 mewn costau ar gyfer planhigion a brynwyd ar gyfer y gwelyau grug gan wneud taliad o £645.00 y cytunwyd arno.

8. Ffurflen Flynyddol 2020-21

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a archwiliwyd yn fewnol gan Mr. Mark Gower. Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol. Cadarnhaodd y Clerc

ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod arian wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £23,065.

Cytunodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhawyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cytunwyd y Cyngor daliad y ffi Archwilio sef £60.00. Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei danfon at Mr. Gower hefyd. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar y Ffurflen Flynyddol a chofnodion ariannol y Cyngor.

9. Archwilydd Mewnol 2021-22

Cytunodd y Cyngor i benodi Mr. Mark Gower yn Archwilydd Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

10. Cynllunio

1. PL/01879 - Cais amlinellol ar gyfer hyd at 27 annedd preswyl gyda'r holl faterion wedi'u cadw - Tir gwag oddi ar Lon Santes Ann, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LZ

Cytunwyd er na fyddai unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu codi i'r cais, byddai'r materion canlynol yn cael eu codi gyda'r Cyngor Sir:

Ymgynghoriad cyn ymgeisio

Nododd y Cyngor bod yr ymgeisydd yn honni fod ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi'i gynnal ar y cais. Roedd y Cyngor yn siomedig iawn o nodi nad oedd yn ymddangos yr ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned a thrigolion lleol. Felly byddai ymholiad yn cael ei godi ynghylch pam na dderbyniwyd hyn gan y Cyngor fel ymgynghorydd statudol.

Cytundeb A106

Credai'r Cyngor ei bod yn hanfodol ar y cam cynharaf i gytuno ar y budd Cymunedol a fyddai'n deillio o unrhyw gymeradwyaeth. Cytunodd y Cyngor i ofyn am ddarparu cyfraniadau yn gynnar trwy gydol unrhyw raglen ddatblygu.

Fel rhan o'r materion i'w hystyried roedd:

- Gwelliannau i'r gyffordd yn Eglwys Santes Ann
- Gwelliannau palmant i gyffordd Santes Ann o ardal Ffrwdwen.
- Gwelliannau palmant ar hyd Cwmffrwd a chwblhau'r gwaith o Oaklands i Idole.
- Gwelliannau amwynder gan gynnwys tarmacio maes parcio Eglwys Santes Ann.
- Ystyried defnyddio un o ardaloedd yr unedau tai i ddarparu ar gyfer ardal chwarae.

Systemau Draenio Cynaliadwy

Nodwyd pryder mewn perthynas â draenio yn y lleoliad arfaethedig hwn a'r effaith o ganlyniad ar eiddo cyfagos. Bydd cais yn cael ei godi am gadarnhad o gynlluniau draenio yn gynnar yn y broses.

Cartrefi fforddiadwy

Byddai cais yn cael ei godi am eglurder yn y cyfnod cynnar hwn o nifer y cartrefi fforddiadwy i'w cynnwys yn y datblygiad a bod y rhain i'w cynnwys yn y cytundeb ar gyfer darpariaeth yn gynnar yn y datblygiad yn hytrach nag ar y diwedd gyda'r canlyniad posibl o achosi oedi.

11. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1. Mark Gower **£60.00** Archwiliad Mewnol 2020-21 (gweler eitem 8)
2. Cyng Meinir James **£350.00** Lwfans Cadeirydd 2020-21

3.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mai a chostau	£624.78 £26.00	£7.00 £13.50	£671.28	£126.20	£0.00	£545.08

4. Michael Leefe **£645.00** Atgyweiriwr Mai (gweler eitem 7))

12. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nodwyd bod Anne Stephens, fferm Coedybrain a oedd wedi cyflawni rôl glanhawr Lloches Bws yng Nglanmorlais ers blynnyddoedd lawer yn yr ysbyty. Bydd cerdyn yn cael ei danfon gan y Cyngor, yn dymuno gwellhad cyflym iddi.
2. Bydd y Clerc yn egluro maint y gwaith ail-wynebu heol oedd i'w wneud yn Heol Hir (Llandyfaelog i Llansaint), roedd yn ymddangos bod gwaith cyfyngedig wedi'i wneud yn ddiweddar.
3. Nodwyd pryder mewn perthynas â chwblhau gwaith wynebu ffyrdd ar gyfer y datblygiad tai newydd ym Mesglasnant gydag oedi o ganlyniad i'w fabwysiadu gan y Cyngor Sir ynghyd â threfniant i gasglu sbwriel ar ymyl y ffordd, bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir ac eglurhad o effaith 'cynllun 38, cam 2' ar gyfer yr ardal.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 1^{af} Gorffennaf 2021 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.